



Nifer y busnes garddwriaeth sydd wedi cofrestru:



Rhwydwaith Arddangos

Plas yn lâl: yn Coedwigaeth Gorchudd Parhaus (CCF) mewn coetiroedd fferm

Yn gynnar ym mis Rhagfyr 2010, sefydlwyd 10 o blotiau treialu yn yr ardal 12.76ha o goetir ar fferm Plas yn lâl, fel rhan o glwstwr ymchwil Rhwydwaith Coedwriaeth Anghyson (ISN). Mae clwstwr Ymchwil ISN wedi'i ddylunio i samplu'r coetir fferm i gofnodi'r mathau o goetir, y cyfansoddiad o ran rhywogaethau a gallu'r coetiroedd o ran cynhyrchiant. Dewiswyd lleoliad y plotiau treialu i gasglu'r amrywiaeth eang o fathau o goetir. Dangosodd prif ganlyniad y data a gasglwyd fod cyfaint y coetir yn cynyddu ar raddfa amcangyfrifedig o 7.19ma/ha/y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i tua 28,000kWh/y flwyddyn, sy'n golygu y gallai cyflwyno Coedwigaeth Gorchudd Parhaus fel techneg o reoli coed ddarparu 76 tonnell (neu 150,365kWh) o goed y gellir eu gwerthu. Coedwigaeth gorchudd parhaus (CCF) yw pan fydd coed unigol yn cael eu torri i gynnal gorchudd coetir parhaol, gan alluogi cynhyrchu coed masnachol, law yn llaw â bioamrywiaeth fel cynnyrch.

Cam nesaf y prosiect oedd cynnal cynllun treialu synhwyro o bell ar y coetir. Trwy ddefnyddio Model Arwyneb Digidol (DSM) a Model Tir Digidol (DTM), amcangyfrifwyd y Model Uchder Canopi (uchder gwirioneddol y coed oddi wrth y ddaear). Yn ychwanegol at hyn, amcangyfrifwyd gorchudd y canopi i gyfrifo cyfaint rhannau o'r coetir. Amcan y treial synhwyro o bell oedd ei gymharu â chanlyniadau arolwg ISN ac amlygu potensial ei gost-efeithiolrwydd o ran deall strwythurau coetir ar ffermydd dros ardaloedd mwy. Cyfunwyd y data o'r ddau arolwg i greu Cynllun Rheoli Coetir Gorchudd Parhaus.

Prif gasgliad y treial synhwyro o bell oedd y gall roi cyfrif cywir iawn o foncyffion ar gyfer planhigfeydd conwydd, oherwydd ei allu i wahaniaethu rhwng gwahanol gorunau. Ar fferm Plas yn lâl, coed llydanddail yw'r prif fath o goetir, felly roedd yn anodd cyfrifo'r boncyffion ar adegau. Er gwaethaf hyn, mae'r canlyniadau yn rhoi tystiolaeth o ddefnyddioldeb synhwyro o bell i gynorthwyo wrth asesu trosglwyddo i orchudd parhaol.

Ar ôl ysgrifennu Cynllun Rheoli Coetir a chael trwydded i dorri coed, bydd y clystyrau yn cael eu rheoli i'w trawsnewid yn Goedwig Gorchudd Parhaol i fodloni'r galw lleol am danwydd coed ac i gynhyrchu pren cynaliadwy o ansawdd uchel.



Ffigwr 1. Cynllun treialu synhwyro o bell ar y coetir. Trwy ddefnyddio Model Arwyneb Digidol (DSM) a Model Tir Digidol (DTM).

Treial glaswelltir yn cadarnhau bod sylffwr yn fewnbwn gwerthfawr yn economaidd

Mae treial Cyswllt Ffermio wedi dangos bod taenu gwrteithiau y mae seleniwm a sylffwr wedi cael eu hychwanegu atynt yn rhoi hwb i lefelau seleniwm mewn glaswelltir hyd at bum gwaith, ac mae hefyd yn cynyddu maint cnydau glaswelltir hyd at 11%.

Fe wnaeth tri o safleoedd arddangos Cyswllt Ffermio gymryd rhan yn y prosiect i ganfod effeithiolrwydd defnyddio gwrteithiau sydd wedi'u cyfoethogi â seleniwm a sylffwr. Mae'n hysbys bod llawer o briddoedd yng Nghymru yn ddiffygiol mewn seleniwm – un o'r mwynau sy'n chwarae rhan bwysig mewn perfformiad da byw.

Mae diffyg sylffwr mewn glaswelltir hefyd nawr yn fwy cyffredin. Gall hyn gael effaith ar gnydau glaswelltir a lefelau protein a siwgr a rhwystro nitrogen rhag cael ei amsugno, gan arwain at fod nitrogen dros ben yn y pridd, sy'n gallu trwytholchi dros y gaeaf.

Bu Cyswllt Ffermio mewn partneriaeth â Yara ar gyfer y prosiect, gan gyflenwi ei wrteithiau Silage Booster a Nutri Booster i'w taenu, er mwyn treialu yn erbyn caeau rheoli sydd wedi'u taenu â chymysgeddau gwrtaith sylfaenol.

Cynhaliwyd y treial yn ystod tymor tyfu 2021 yn Rhiwaedog, sy'n fferm biff a defaid yn y Bala, a fferm Mountjoy, sy'n fferm laeth ger Hwlfordd, ac yn Bodwi, sy'n fferm biff a defaid ym Mhen Llŷn.

Cynhaliodd Rhiwaedog y treial mewn dau o'r caeau silwair toriad cyntaf a fferm Mountjoy mewn cae silwair ail doriad, tra bod Bodwi wedi monitro perfformiad un cae ar y toriad cyntaf a'r ail.

Taenodd Rhiwaedog Silage Booster ar 375kg/ha gyda 21:8:11 yn y cae rheoli, taenodd Mountjoy Nutri Booster ar 375kgN/ha gydag amoniwm nitrad yn y cae rheoli, a thaenodd Bodwi Silage Booster ar 375kg/ha i'r toriad cyntaf ac ar 310kg/ha i'r ail, gan ddefnyddio 21:8:11 yn y cae rheoli.

Dangosodd y dadansoddiadau bod y gwrtaith Booster, yn y silwair a'r llystyfiant ffres, wedi cynyddu'r cynnwys seleniwm – bum gwaith yn nodweddiadol mewn glaswelltir ffres a dwy i dair gwaith mewn silwair.

Cofnodwyd manteision maint cnydau o hyd at 11% ar y tair fferm.

Gyda'r gost arferol o ychwanegu sylffwr i bob toriad silwair yn oddeutu £7/ha, mae'r glaswelltir ychwanegol a dyfwyd yn y treial hwn (300kgDM/ha) yn werth bron £50 o ran egni a phrotein.




	Ansawdd silwair			
	ME	CP	S	Se
Bodwi 1 Con	10.8	14.4	0.26	0.08
Bodwi 1 S	11	12.6	0.27	0.19
Bodwi 2 Con	10.2	12.3	0.28	0.07
Bodwi 2 S	10.8	12.7	0.28	0.23
Rhiw Con 1	10.2	9.8	0.09	0.1
Rhiw S 1	11	10.2	0.2	0.21
Rhiw Con 2	10.2	12.4	0.2	0.07
Rhiw S 2	10.5	13.5	0.2	0.22

Ffigwr 2. Canlyniadau Sylwair.

	Ansawdd llystyfiant ffres						Cynnyrch Perlysiu Ffres kgDM/ha
	ME	NO3	S	Se	ME	WSC	
Bodwi 1 Con	13	100	0.23	0.016	9.3	8.2	5400
Bodwi 1 S	16.4	100	0.33	0.083	9	9.6	5700
Bodwi 2 Con R1	19.6	110	0.044	0.025	11.4	15	
Bodwi 2 S R1	9.4	50	0.067	0.073	10.7	16.4	
Bodwi 2 Con R2	18.4	100	0.064	0	11.4	16.7	
Bodwi 2 S R2	11.1	70	0.061	0.085	11.1	20.2	
Rhiw 1 Con	16	100	0.19	0.033	10	8.7	4600
Rhiw 1 S	15.6	100	0.26	0.22	9.8	9.4	4900
Rhiw 2 Con	15	100	0.21	0.101	10.4	10.2	4300
Rhiw 2 S	15.1	100	0.21	0.109	9.8	9.1	4300
Mjoy Con	14.9	250	0.18	0.026	10.4	13.9	4050
Mjoy S	13	100	0.231	0.135	10.8	17.1	4510

Ffigwr 3. Canlyniadau llysieuaeth ffres.

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

-  BWYDO TRWY'R DAIL NID Y PRIDD: LLWYBR GWAHANOL I'R GWREIDDIAU
-  GWEITHREDIAD A GWYTNWCH ECOSYSTEM: PAM EI FOD YN BWYSIG I AMAETHYDDIAETH?
-  RHWYSTRO'R RHEDYN: STRATEGAETHAU RHEOLI A LLINIARU

Gweminarau



CYNHALIWYD

12

O WEMINARAU

gyda



308

O WYLWYR

Mae enghreifftiau o weminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:

- Rheoli pridd a gwyndonnydd ar gyfer cynhyrchu a diogelu'r amgylchedd
- Hau glaswellt o dan gnwd india corn i gyflawni buddion amgylcheddol ac economaidd

Gwasanaeth Cyngori

Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cymorth drwy Gategoriâu Tir y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn:



Derbyniodd 61 o unigolion gefnogaeth un-i-un drwy Gategoriâu Tir y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.



Derbyniodd 488 o unigolion o fewn 135 grŵp gefnogaeth un-i-un drwy Gategoriâu Tir y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

Adborth gan fusnesau ar ddarparu'r Gwasanaeth Cyngori hwn:

"Bydd y cyngor, gobeithio, yn gwneud ein busnes yn fwy cynhyrchiol, cost-effeithiol, a byddwn yn fwy ymwybodol o sut i ddefnyddio ein hadnoddau yn ddoeth. Diolch"

"Gwasanaeth proffesiynol da iawn"

E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

GARDDWRIAETH ORGANIG



GWELLA IECHYD PRIDD



DIOGELWCH PLALADDWYR



RHYWOGAETHAU GLASWELLTIR



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

Hyfforddiant

Cwrs	Nifer o unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ystod y cyfnod hwn
Dyfarniad Lefel 2 mewn Gwasgaru Plaladdwyr yn Ddiogel gan ddefnyddio Offer Chwistrellu Bwm wedi'i osod ar Gerbyd (PA2)	33
Tryc Codi Telesgopig ar gyfer Tir Garw	19
Cynnal a Chadw Llif Gadwyn a Thrawslifio	13
Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1) / Gwasgaru Plaladdwyr yn Ddiogel gan ddefnyddio Offer Llaw (PA6)	12
Defnyddio a Gwasgaru Slyri'n Ddiogel	10

Grwpiau trafod



Roedd aelodau o grŵp trafod biff a defaid yng ngogledd-orllewin Cymru wedi gofyn am Nigel Howells (Nigel Howells Consultancy Ltd) fel siaradwr, ar y prosiect EIP 'Bwydo glaswellt trwy'r dail' y bu'n ymwneud ag ef ar ffermydd yn ne Cymru. Mae hwn yn ddull o wasgaru gwrtait nitrogen mewn ffurf hylif yn uniongyrchol i ddeilen y planhigyn. Roedd gan aelodau'r grŵp ddiddordeb mewn darganfod a fyddai'n dechreg y byddent yn gallu ei mabwysiadu ar eu ffermydd eu hunain.

Rhoddodd Nigel drosolwg o'r gwaith a wnaed yn y treial EIP, lle'r oedd nitrogen hylifol yn cael ei roi ar wahanol leiniau crydau ar bedair fferm wahanol. Cymharwyd y rhain wedyn â lleiniau lle'r oedd nitrogen (N) yn parhau i gael ei wasgaru'n gonfensiynol. Eglurodd hefyd pa mor bwysig oedd amseru'r gwasgaru; roedd yn well gwasgaru yn gynnar yn y dydd neu'n gynnar gyda'r nos, pan oedd y planhigyn yn fwy parod i'w dderbyn. Roedd cyfnod twf planhigion hefyd yn hollbwysig; mae angen i ddeilen fod yn bresennol i'r cynnyrch gael ei ymgorffori i'r planhigyn, h.y. ni allech wasgaru ar badog sydd ddim wedi'i bori, gan na fyddai digon o arwyneb dail yno i gymryd maetholion.

Hyd yn hyn, mae canlyniadau'r prosiect wedi dangos bod effeithlonrwydd y defnydd o nitrogen wedi cynyddu'n sylweddol, o'i gymharu â'r defnydd confensiynol o N - mae bwydo trwy'r dail yn 80-85% effeithlon, o'i gymharu ag effeithlonrwydd o 50-60% ar gyfer N confensiynol.

Prif negeseuon y noson oedd:

- Mae bwydo nitrogen trwy'r dail yn llawer mwy effeithlon na'r defnydd o N confensiynol, felly defnyddir llai o gynnyrch.
- Mae bwydo glaswellt trwy'r dail yn cynnig arbedion cost sylweddol o ran N/litr o laeth ar y ffermydd laeth a gymerodd ran yn y prosiect.
- Mae'r arbedion cost yn debygol o fod hyd yn oed yn fwy eleni, o ystyried costau cynyddol gwrtait nitrogen ar ffurf pelenni wedi'i chwistrellu'n gonfensiynol.

Bydd canlyniadau terfynol y prosiect ar gael eleni.

EIP Cymru



Rheoli Dail Tafol yn Electroffisegol



Ffigwr 4. Defnyddiwyd system chwynnwr trydanol RootWave Pro yn y treialon hyn, sydd yn anfon cerrynt foltedd uchel trwy'r planhigyn i bob pwrpas yn berwi holl gelloedd y planhigyn.

Mae diddordeb cynyddol yn y sector amaethyddol mewn symud oddi wrth ddulliau cemegol o reoli chwyn neu ddod o hyd i ddulliau amgen y gellir eu hintegreiddio â chemegau fel strategaeth rheoli plâu integredig (IPM).

Mae canlyniadau treialon dros ddau dymor wedi dangos bod trin planhigion doc yn drydanol ar dri amser triniaeth yn effeithiol iawn a gall fod yn gyferth â chwynladdwr yn unig. Mae rheolaeth drydanol yn hynod addawol fel arf ychwanegol ar gyfer rheoli dociau mewn glaswelltir, a fyddai o fudd i ffermwyr organig neu'r rhai sy'n ceisio lleihau mewnbynnau chwynladdwr.

Mae angen rhoi triniaethau cemegol ar gamau twf penodol o'r gwaith doc er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posibl tra bod y dechreg electroffisegol yn fwy hyblyg gan alluogi ffenestri trin ehangach sy'n gallu cyd-fynd yn well â chyfundrefnau pori neu dorri.

Y cyfyngiadau gyda'r pecyn 'Rootwave Pro' yn y sefyllfa hon o gaeau glaswelltir yw diffyg symudedd ac mae rheolaeth effeithiol yn gofyn am dair triniaeth o gymharu ag un driniaeth chwynladdwr. Bydd angen system ar ffermwyr i gosod ar dractor sy'n gallu teithio ar gyflymder rhesymol cyn y byddan nhw'n defnyddio'r system hon ar fferm, a dyma beth mae'r cwmnïau yn y sector hwn yn gweithio tuag ato.

